

“ Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar ganlyniadau arolwg Mehefin 2023 y DU a ryddhawyd ganol mis Rhagfyr, a sut y gall niferoedd da byw effeithio ar y cyflenwad yn y dyfodol. ”

Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes



GWARTHEG

Mae data a ryddhawyd yn ddiweddar gan Defra wedi datgelu bod cyfanswm nifer y gwartheg a'r lloi yn y DU ar 01 Mehefin 2023 yn **9.56 miliwn pen**. Mae hyn yn ostyngiad o 0.8% (neu 76,500 pen) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae'n parhau gyda'r duedd gyffredinol ar i lawr a welwyd ym muches y DU yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y fuches fridio* (cig eidion a llaeth) yn cyfrif am dros draean o gyfanswm y gwartheg, ond wedi lleihau o bron i 2% i 3.2 miliwn o'r pen. Y sbardunwr ar gyfer hyn oedd gostyngiad bron i 5% ym maint y **fuches fridio cig eidion** i 1.4 miliwn pen - y lleiaf a gofnodwyd, ac i lawr 13% o'i gymharu â 2013. O edrych ar y **fuches**

fridio llaeth; mae'r niferoedd wedi aros yn gymharol sefydlog, gyda niferoedd i lawr dim ond 0.3% ar Fehefin 2022 i 1.8 miliwn pen. Mewn cymhariaeth, mae'r fuches fridio llaeth 3% yn fwy nag yr oedd yn ôl yn 2013. Gostyngodd cyfanswm nifer y gwartheg benywaidd 2 flwydd oed neu fwy o 1.5% ar y flwyddyn, tra bod y rhai rhwng 1 a 2 flwydd oed wedi cynyddu bron i 2% - oherwydd cynnydd mewn gwartheg cig eidion a llaeth benywaidd o fewn y categori. Cofnododd gwartheg gwrywaidd hŷn dros 2 flwydd oed gynnydd nodedig o dros 6% ar y flwyddyn, tra bod y rhai rhwng 1-2 flwydd oed yn aros yn gymharol sefydlog ar y flwyddyn. Gostyngodd gwartheg gwrywaidd o dan 12 mis oed 3%



ar y flwyddyn. Byddai'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod cynhyrchiant cig eidion domestig yn annhebygol o gynyddu'n sylweddol yn y tymor byr, fodd bynnag gall cynnydd yn nifer y gwartheg benywaidd iau (yn enwedig yn y grŵp oedran 1-2 oed) arwain at well cyflenwadau yn ystod y tymor hwy.

*diffinnir buwch fridio yng nghyd-destun y datganiad hwn fel buwch sydd wedi lloia.

DEFAID

Mae ffigurau dros dro Defra yn dangos mai'r nifer o ddefaid ac ŵyn yn y DU ar 01 Mehefin 2023 oedd **31.8 miliwn pen**. Mae hwn yn ostyngiad nodedig o 4% (neu 1.4 miliwn pen) ar y flwyddyn yn dilyn dwy flynedd yn olynol o gynnydd. Maint y ddiadell bresennol yw'r lleiaf a gofnodwyd ers 2011, gyda'r dirywiad diweddar yn cael ei ysgogi gan ostyngiadau ym mhob categori defaid. Gostyngodd maint cyffredinol y **ddiadell fridio fenywaidd** 2% i 15.4 miliwn pen, gyda'r rhai y bwriadwyd ar gyfer bridio tro cyntaf yn gyrru'r dirywiad hwn - i lawr 6% ar y flwyddyn.

Oherwydd costau mewnbyn ffermydd uchel yn ystod y 18 mis diwethaf, rhagwelwyd y byddai cyfraddau difa uwch, ac felly llai o famogiaid ar gyfer bridio. Dywedwyd bod cyfraddau sganio hefyd yn isel ar ddechrau 2023 oherwydd tywydd ac amodau mamogiaid, ac felly roedd disgwyl llai o **ŵyn ar y ddaear**. Mae canlyniadau arolwg Mehefin y DU yn dangos bod nifer yr ŵyn ar y ddaear (o dan flwydd oed) wedi gostwng bron i filiwn pen ar y flwyddyn i sefyll ar 15.5 miliwn pen (gostyngiad o 6%) - mae'r lefel hon hefyd 6% yn is na'r lefelau a welwyd yn 2021. O edrych ar y flwyddyn cnwd cig oen (Mai 2023 - Ebrill




2024), mae tua 7.2 miliwn o ŵyn eisoes wedi'u prosesu mewn lladd-dai y DU, sydd tua 1% yn uwch na'r cyfnod cyfatebol y llynedd. O ganlyniad, disgwylir y bydd y cyflenwad yn dynnach yn ystod y misoedd sy'n weddill, o ystyried maint y cnwd cig oen presennol.

MOCH

Ar 01 Mehefin 2023, cyfanswm nifer y moch yn y DU oedd **4.7 miliwn pen** - gostyngiad o 10% (neu 537,100 pen) ar y flwyddyn flaenorol. Mae niferoedd moch felly wedi gostwng islaw'r marc 5 miliwn am y tro cyntaf ers 5 mlynedd. Cafodd y gostyngiad yn y fuches ei ysgogi gan ostyngiad nodedig

o 11% yn nifer y **moch sy'n pesgi**, i 4.3 miliwn pen. Arhosodd nifer y **moch bridio** yn gymharol sefydlog mewn cymhariaeth, gyda'r niferoedd yn sefyll ar 427,850 pen - i lawr dim ond 0.2% ar y flwyddyn. Heb os, bydd gostyngiad nodedig mewn niferoedd moch sy'n pesgi yn achosi gostyngiad cynhyrchu o fewn y DU.



Canlyniadau arolwg Mehefin 2023 ar gyfer Cymru:

- Cyfanswm y gwartheg a'r lloi = 1.1 miliwn pen (i lawr 1% ar y flwyddyn)
- Cyfanswm y defaid a'r ŵyn = 8.7 miliwn pen (i lawr 7% ar y flwyddyn)
- Cyfanswm y moch = 24,800 pen (i lawr 8% ar y flwyddyn)

Ffynhonnell: 'Arolwg o amaethyddiaeth a garddwriaeth, Mehefin 2023'

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – yr wythnos yn dod i ben ar 16 Rhagfyr

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **270.2c/kg**. Roedd hyn:

- - 9.5c ar yr wythnos flaenorol,
- + 16.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 55.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 214.6c/kg).

Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **480.4c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.3c ar yr wythnos flaenorol,
 - 40.7c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.
- Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn sefyll ar 475.7c/kg (+2.5c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 459.8c/kg (+3.8c), a gwartheg difa ar 289.6c/kg (-0.3c).

Trwybwn – Tachwedd 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 258,800 pen – gostyngiad o 1% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 183,900 pen - tebyg ar y flwyddyn.
 - bustych -1%, heffrod +1%, a theirw ifanc -1%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 338.8kg (-1.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 66,300 pen - i lawr 4% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – yr wythnos yn dod i ben ar 16 Rhagfyr

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **256.0c/kg**. Roedd hyn:

- + 5.0c ar yr wythnos flaenorol,
- + 28.4c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 41.3c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 209.6c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£73.20/pen**. Roedd hyn:

- + £2.00 ar yr wythnos flaenorol,
- £4.20 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 585.3c/kg (-0.5c ar yr wythnos).

Trwybwn – Tachwedd 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.3 miliwn pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 3% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass cig oen cyfartalog = 19.6kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 129,600 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.

MOCH

Prisiau – wythnos yn dod i ben ar 9^{fed} Rhagfyr

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn sefyll ar **215.5c/kg**. Roedd hyn:

- +1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- + 10.2c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 51.6c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 163.9c/kg).

Trwybwn – Tachwedd 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 930,800 pen – gostyngiad o 5% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 910,500 pen – i lawr 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu cyfartalog = 90.3kg (+0.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 20,200 pen – cynnydd o 7% ar y flwyddyn.

